Tŷ Capel Pen y graig
Llangwnnadl
Pwllheli
Gwynedd
LL53 8NT
Ffôn: 01758 770468
E-bost: post@ysgol.co.uk

3 Mawrth, 2008

Mr Harry Thomas
Prif Weithredwr
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Sir
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Annwyl Mr Thomas,

Ad-drefnu Ysgolion Cynradd Gwynedd

Dymunwn ddwyn i sylw aelodau Bwrdd y Cyngor benderfyniad a basiwyd gyda mwyafrif llethol mewn cyfarfod cyhoeddus a alwyd gan y Gynghrair Ysgolion a Chefnogwyr ac a gynhaliwyd yn Ysgol Glan-y-Môr, Pwllheli ar Fawrth 1af eleni:

Y Penderfyniad

" Yr ydym ni sydd wedi ymgynnull yma yn Ysgol Glan-y-Môr, Pwllheli ar Ddydd Gŵyl Dewi, 2008 yn galw ar Gyngor Gwynedd i roi o'r neilltu yr ymgynghoriad presennol ar ad-drefnu ysgolion cynradd, a llunio cynllun drafft newydd yng ngoleuni'r canlynol:
1. proffiliau ieithyddol, diwylliannol a chymdeithasol o'r ysgolion a'r cymdogaethau; ac asesiadau ardrawiad ieithyddol, diwylliannol a chymdeithasol mewn perthynas â'r ysgolion a'r cymdogaethau.
2. astudiaethau cymharol helaethach er mwyn ehangu'r dewisiadau i gynnwys cydweithio ffurfiol a gwahanol fathau o glystyru ac o ffederaleiddio.
3. barn rhieni a chyrff llywodraethol lleol. "

Gofynnwn yn garedig i aelodau Bwrdd y Cyngor ymateb yn gadarnhaol i'r cais, a gwneud trefniadau i alw cyfarfod arbennig o'r cyngor llawn i argymell y cynghorwyr i benderfynu rhoi'r ymgynghoriad presennol o'r neilltu, ac ail-ystyried yr ad-drefnu yn unol â'r gofynion yn ein cynnig.

Byddem yn falch pe baech chi mor garedig â chyflwyno'r llythyr hwn yn ffurfiol i sylw aelodau Bwrdd y Cyngor yn eu cyfarfod nesaf, ac edrychwn ymlaen at dderbyn eu hymateb.

Ar ran y Gynghrair Ysgolion a Chefnogwyr,



Sian Parri

Ysgolion: Abersoch, Llidiardau, Edern, Tudweiliog, Pont y Gof, Crud y Werin, Pentreuchaf, Parc, Llanbedrog, Morfa Nefyn, Brithdir, Llwyngwril, Bro Hedd Wyn, Dyffryn Ardudwy, Bryncrug, Rhydyclafdy, Bro Plenydd, Dinas Mawddwy, Y Gorlan, Llanllyfni, Foel Gron, Talysarn, Carmel, Felinwnda, Rhiwlas, Borth-y-Gest, Machreth, Clogau, Santes Helen, Yr Eifl, Chwilog, Abererch, Llangybi, Ganllwyd, Llanelltyd, Bronyfoel, Baladeulyn, Llanaelhaearn, Garndolbenmaen, Beddgelert, Llanystumdwy, Llawrybetws, Y Garreg, Croesor, Nefyn.
Cyrff: Fforwm Llywodraethwyr Llŷn, Cyfeillion Llŷn, Mudiad Achub Llanystumdwy, Rhieni Ysgol Manod, Cyngor Cymuned Aberdaron, Cyngor Cymuned Tudweiliog, Cyngor Cymuned Botwnnog, Cymdeithas yr Iaith, Cylch yr Iaith.
Unigolion: Angharad Tomos, Yr Athro Gwyn Thomas, Dr Meredydd Evans, Y Parch. John ac Elina Owen, John Meirion Morris, Ifor Davies, John Gruffydd Jones, Y Parch. Harri Parri, Y Barnwr Dewi Watkin Powell, Nia Rhosier, Robin Llywelyn, Y Parch. Emlyn Richards, Helga Martin, Heini Gruffudd, Dr Robin Gwyndaf , Yr Athro D. J. Bowen, Geraint Jones, Y Cyn-Archdderwydd Selwyn Iolen, Gareth a Gina Miles, Geraint Vaughan Jones, Phyllis M. Ellis, Emyr Llywelyn, Tecwyn Ellis, Howard Huws, Yr Athro Hywel Teifi Edwards, Dr Carl Iwan Clowes, Dafydd Glyn Jones, Dr Morgan a Cet Jones, Dr Cen a Gwenda Williams, Gwen Prichard Jones, Y Cyn-Archdderwydd Dr Robyn Léwis, Myrddin ap Dafydd, Ieuan Wyn, Thomas Prys Jones, Y Cyng. E. Selwyn Griffiths, Y Cyng. Seimon Glyn, Y Cyng. Penri Jones, Bob Dorkins, Ffred Ffransis.